

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Hydref 2017 i'w hateb ar 25 Hydref 2017

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw Llefarywyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gofyn i [Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol](#)

1. [David Rees \(Aberafan\)](#): Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â darparu bargaen ddinesig Bae Abertawe? (OAQ51240)
2. [Dawn Bowden \(Merthyr Tudful a Rhymni\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae gwahanol elfennau o'r gyllideb ddrafft yn helpu'r grwpiau o bobl fwyaf agored i niwed ym Merthyr Tudful a Rhymni? (OAQ51237)
3. [Adam Price \(Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr\)](#): A wnaiff Llywodraeth Cymru gael gwared ar y cap ar gyflogau'r sector cyhoeddus? (OAQ51243)
4. [Mark Isherwood \(Gogledd Cymru\)](#): Pa ddarpariaeth ariannol y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i gwneud ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau atal? (OAQ51227)
5. [Simon Thomas \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr egwyddorion sy'n llywio ystyriaeth Llywodraeth Cymru o drethi newydd? (OAQ51244)
6. [Angela Burns \(Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro\)](#): Pa astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ynghylch effaith bosibl unrhyw drethi y mae'n ystyried eu cyflwyno yn ystod y pumed Cynulliad? (OAQ51236)
7. [Mohammad Asghar \(Dwyrain De Cymru\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer portffolio'r amgylchedd a materion gwledig? (OAQ51225)
8. [Nick Ramsay \(Mynwy\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y caiff dyraniadau gwario eu blaenoriaethu yn y gyllideb ddrafft? (OAQ51231)
9. [Rhianon Passmore \(Islwyn\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyraniadau'r gyllideb i bortffolio'r economi a'r seilwaith mewn perthynas â rhwydwaith rheilffyrdd Cymru? OAQ51239

- 10. [Mark Reckless \(Dwyrain De Cymru\)](#):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr effaith y caiff newidiadau i'r dreth drafodiadau eiddo ar y cyflenwad o eiddo masnachol? (OAQ51241)
- 11. [Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru? (OAQ51232)
- 12. [Hefin David \(Caerffili\)](#):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio dangosyddion cenedlaethol wrth gyflawni gwelliannau perfformiad ar gyfer llywodraeth leol? (OAQ51235)
- 13. [Leanne Wood \(Rhondda\)](#):** Beth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei wneud i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gymorth ariannol o'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ51230)
- 14. [Mohammad Asghar \(Dwyrain De Cymru\)](#):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru? (OAQ51224)
- 15. [Steffan Lewis \(Dwyrain De Cymru\)](#):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am wella sut y cyflenwir gwasanaethau yn yr ardal? (OAQ51242)

Gofyn i [Gomisiwn y Cynulliad](#)

- 1. [Bethan Jenkins \(Gorllewin De Cymru\)](#):** A wnaiff y Comisiwn amlinellu'r rheolau sy'n ymwneud â gwerthwyr preifat, fel y Big Issue, ar neu y tu allan i ystâd y Cynulliad? (OAQ51228)
- 2. [Leanne Wood \(Rhondda\)](#):** Pa ymdrechion y mae'r Comisiwn yn eu gwneud i hyrwyddo addysg wleidyddol? (OAQ51233)
- 3. [Simon Thomas \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#):** A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am sut y dyrennir costau diogelwch yn y Cynulliad? (OAQ51247)